**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf P-06-1521
Ein cyf HIDCC/02232/25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

04 Chwefror 2026

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr ynglŷn â Deiseb P-06-1521, Rhoi'r hawl i breswylwyr cartrefi mewn parciau yng Nghymru gael mesurydd dŵr*,* ac am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi ar ystyriaeth y Pwyllgor Deisebau o'r mater hwn yn ei gyfarfod ar 24 Tachwedd. Rwyf yn ymddiheuro am yr oedi cyn ymateb.

Nodaf yr ymatebion a ddarparwyd gan Ofwat a Dŵr Cymru, gan gynnwys eu cydnabyddiaeth o'r pryderon a godwyd gan y deisebydd a'r cyfyngiadau o fewn y fframwaith rheoleiddio a deddfwriaethol presennol. Rwyf hefyd yn croesawu penderfyniad y Pwyllgor i dynnu'r mater hwn at sylw Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, ac i ofyn am eglurder pellach gan Dŵr Cymru ar y pwyntiau a godwyd.

Mae pryderon ychwanegol y deisebydd — yn enwedig ynghylch tryloywder, tegwch, a gallu preswylwyr cartrefi mewn parciau i gael mynediad at fesuryddion unigol — yn bwysig ac yn haeddu ystyriaeth ofalus. Rwy'n cydnabod y gall y trefniadau presennol adael rhai preswylwyr yn teimlo dan anfantais, ac rwy'n gwerthfawrogi ymdrechion y Pwyllgor i sicrhau bod y materion hyn yn cael eu harchwilio'n llawn.

Rwyf hefyd yn cefnogi anogaeth y Pwyllgor i'r deisebydd ymwneud yn uniongyrchol â'r ymgynghoriad parhaus ar Bapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru a Phapur Gwyn Llywodraethau'r DU ar ddiwygiadau dŵr. Mae'r ymgyngoriadau hyn yn rhoi cyfle amserol i unigolion a chymunedau gyfrannu at ddatblygu polisi yn y dyfodol yn y maes hwn, gan gynnwys newidiadau posibl a allai effeithio ar hawliau o ran mesuryddion a threfniadau bilio ar gyfer preswylwyr cartrefi mewn parciau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf yn parhau i ddilyn gwaith y Pwyllgor ar y ddeiseb hon yn frwd ac yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod pryderon preswylwyr cartrefi mewn parciau yn cael eu deall a'u hystyried yn briodol fel rhan o ddiwygiadau'r sector dŵr ehangach.

Diolch ichi am dynnu fy sylw at y mater hwn.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig